**PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CRAFFU - ADDYSG A CHYNHWYSIANT**

Cofnodion o gyfarfod y hybrid Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant a gynhaliwyd Dydd Mawrth, 20 Mehefin 2023 am 5.00 pm.

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion yma

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol – Roedd y Aelodau Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant canlynol yn bresennol yn Siambr y Cyngor:-

Y Cynghorydd S.Evans (Cadeirydd)
Y Cynghorydd M Maohoub Y Cynghorydd C Preedy
Y Cynghorydd J Smith

**Roedd y Aelodau Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant canlynol yn bresennol ar-lein:-**

Y Cynghorydd K Webb Y Cynghorydd J Brencher
Y Cynghorydd J Elliott Y Cynghorydd S Emanuel
Y Cynghorydd C Lisles Y Cynghorydd M Maohoub
Y Cynghorydd C Preedy Y Cynghorydd J Smith
Y Cynghorydd D Wood

## Aelodau cyfetholedig a oedd yn bresennol

Mr P Booth, Cynrychiolydd Awdurdodau Esgobaethol â'r hawl i bleidlais
Mr M Cleverley, Cynrychiolydd Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau a'r Panel Athrawon

## Swyddogion oedd yn bresennol

Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Ms C Edwards, Pennaeth Trawsffurfio Gwasanaethau a Systemau Data
Ms A Richards, Cyfarwyddwr Dros Dro – Ysgolion yr 21ain Ganrif a Materion Trawsnewid
Mr T Britton, Pennaeth Cyflawniad RhCT - Sector Cynradd
Ms S Corcoran, Pennaeth Cyflawniad a Lles - Ysgolion Uwchradd a Phob Oed yn RhCT
Mr D Williams, Pennaeth Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles

## Eraill oedd yn bresennol

Mr C Philips, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Estyn

**1 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafodd ymddiheuriadau am absenoldeb eu derbyn gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol Ashford, Cook a Hickman ac Aelodau Cyfetholedig Mr Patterson, Mr Thomas a Mr Veale.

**2 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol

eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

Eitem 2 ar yr agenda – Adroddiad Estyn ar Wasanaethau Addysg Cyngor RhCT

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Evans – Personol – 'Mae fy mhlant yn mynd i ddwy ysgol yn RhCT a fyddai wedi cael eu hasesu yn rhan o'r adroddiad yma. Rydw i hefyd yn Is-gadeirydd Corff Llywodraethu un o'r ysgolion yn RhCT fyddai wedi cael ei chynnwys yn rhan o'r arolygiad yma.'

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol C Lisles – Personol – 'Rydw i'n Gadeirydd y Corff Llywodraethu mewn ysgol yn RhCT ac yn Gadeirydd grŵp gweithredu Ein Plant yn Gyntaf'.

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D Wood – Personol – 'Rydw i'n un o lywodraethwyr ysgol gynradd leol'.

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Smith – Personol – 'Rydw i'n llywodraethwr mewn ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. O ran fy nghyflogaeth amser llawn, rydw i'n uwch swyddog undeb llafur, sy'n trafod ar gyfer Estyn'.

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Maohoub – Personol – 'Rydw i'n llywodraethwr un o'r ysgolion sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad ac rydw i'n aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'.

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol C Preedy – Personol – 'Rydw i'n llywodraethwr mewn ysgol gynradd, ac roeddwn i'n ddisgybl diweddar un o'r ysgolion uwchradd a gafodd eu harolygu felly rydw i'n adnabod disgyblion presennol'.

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Emanuel – Personol – 'Mae fy mhlant yn mynd i ysgol sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad, ac rydw i'n llywodraethwr dwy ysgol'.

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Brencher – Personol – 'Rydw i'n llywodraethwr ysgol a gafodd ei nodi yn yr adroddiad ac oedd yn gysylltiedig â'r sylw am fesurau arbennig'.

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Elliott – Personol – 'Rydw i'n llywodraethwr Ysgol Gynradd Cwm-bach'.

**3 ADRODDIAD ESTYN AR WASANAETHAU ADDYSG YNG NGHYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

Esboniodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant mai pwrpas yr adroddiad oedd rhoi trosolwg o'r broses arolygu a deilliannau arolygiad Estyn o Wasanaethau Addysg yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, a gafodd ei gynnal ym mis Ionawr 2023. Byddai modd gweld yr adroddiad manwl yn Atodiad A ac ar y cyfan, rhoddodd yr adroddiad ddarlun cadarnhaol o safbwynt Estyn ar Wasanaethau Addysg yn RhCT. Rhoddodd Adran 4 rywfaint o wybodaeth gefndirol, ac mae esboniad o'r broses arolygu i'w weld yn Adran 5. Mae'n nodi bod tri maes arolygu yn sail i'r Fframwaith Arolygu Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol. Cafodd Aelodau wybod nad yw arolygwyr wedi

arolygu na gwerthuso pob gwasanaeth addysg yn ystod arolygiad craidd. Roedd adroddiad yr arolygiad yn fanwl iawn felly aeth y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant ddim drwy'r adroddiad llawn. Yn lle hynny, tynnodd sylw at y crynodeb lefel uchel o ddarganfyddiadau Estyn, a oedd i'w gweld yn Adran 6.2 ac yn yr adroddiad hir yn Atodiad A. Rhoddodd Estyn 3 argymhelliad allweddol, a oedd i'w gweld yn Adran 8. Yn amlwg, byddai'r argymhellion yma'n ganolbwynt gwaith gwella yn 2023 a thu hwnt, ac maen nhw eisoes i'w gweld yn y cynlluniau cyflawni a chamau gweithredu ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Daeth y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant i'r casgliad y byddai'r adroddiad yn cael ei drafod gan Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor a'r Cabinet, mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. Roedd arolygiad cyffredinol o Wasanaethau Addysg yn RhCT yn gadarnhaol iawn ac roedd yr adborth a ddarparwyd gan randdeiliaid hefyd yn gadarnhaol iawn. Roedd Estyn wedi nodi sawl maes cryf yn y Gyfadran, yn ogystal â nodi rhai meysydd allweddol i'w gwella. Roedd y meysydd gwella yma eisoes wedi cael eu hystyried ac roedden nhw'n ganolbwynt gwaith cynllunio a chyflawni gwelliannau.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiolch i'r Cyfarwyddwr Addysg a Chynhwysiant, gan gydnabod bod y Pwyllgor o'r farn bod yr adroddiad yn gadarn iawn. Estynnodd longyfarchiadau ar ran y Pwyllgor, gan nodi bod sawl enghraifft o arfer da a bod angen canmol y Gyfadran. Roedd Estyn wedi gofyn am y 2 astudiaeth achos a oedd yn rhywbeth i fod yn falch ohono. Roedd y Cadeirydd o'r farn bod yr argymhellion yr oedd Estyn wedi'u rhoi yn deg ac yn rhesymol i'w rhoi ar waith.

Cyfeiriodd Aelod at dudalen 2, paragraff 4, o'r adroddiad arolygu, mewn perthynas â 'At ei gilydd, mae ansawdd y cymorth a’r wybodaeth a ddarperir gan CCD yn rhy amrywiol' a gofynnodd am eglurhad. Gofynnodd yr Aelod a yw'r un data a gafodd ei gyflwyno i Estyn ar gael i'r Pwyllgor. Cyfeiriodd yr Aelod at dudalen 15, paragraff 4, yr adroddiad arolygu, mewn perthynas ag ‘effaith tlodi’ a gofynnodd a allai Estyn fod wedi cryfhau'r datganiad hwnnw.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, yn nhermau amrywioldeb, fod dehongliad yr adborth hwnnw mewn perthynas â rhywfaint o'r gwaith adrodd. Roedd Estyn wedi cymryd trawstoriad o adroddiadau Cofnod Partneriaeth Gwella Ysgolion (SIPL) a oedd yn cynnwys manylion gwaith Partneriaid Gwella a Charfanau Strategol ac roedd o'r farn bod rhywfaint o anghysondeb. Roedd y gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda Chonsortiwm Canolbarth y De (CCD) o ran disgwyliadau er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth a gafodd ei chofnodi, yn seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol, a bod gan y sylwadau/darganfyddiadau natur werthusol. Cafodd hyn ei ystyried yn hanfodol er mwyn i'r awdurdod lleol fynegi barn wybodus am ysgolion ac ymateb mewn modd amserol mewn perthynas ag ysgolion sy'n peri pryder. Cafodd Aelodau wybod bod y gwasanaeth hefyd wedi gwella ei brosesau mewnol ei hun o ran nodi pryderon sy'n dod i'r amlwg mewn ysgolion. Mae penaethiaid gwasanaethau a chydweithwyr CCD yn cwrdd yn rheolaidd i rannu'r wybodaeth honno. Cafodd Aelodau wybod bod CCD wedi bod yn gweithio ar ei brosesau sicrhau ansawdd, gan na ddylai fod unrhyw pethau annisgwyl pan fo Estyn yn arolygu ysgol. Roedd yn bwysig sicrhau bod gwybodaeth wedi'i darparu gan CCD yn gywir, ac roedd gwelliannau i'w gweld mewn perthynas â hyn. Mae gwaith parhaus yn cael ei gynnal ac mae dull partneriaeth wedi cael ei fabwysiadu.

Nododd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, yn nhermau data, y gallai'r hyn sydd ar gael yn genedlaethol gael ei rannu ond roedd

newidiadau sylweddol i'r system yn ystod y pandemig, gyda mesurau cyflawniad cenedlaethol yn cael eu hatal dros dro. O ganlyniad i hyn, rhoddwyd cyfyngiad ar yr hyn allai gael ei rannu o safbwynt data. Os oedd data mewnol ar gael, cafodd ei rannu gyda'r Pwyllgor. Mae hawl gan y gwasanaeth ddefnyddio rhai setiau data ysgolion at ei ddibenion hunanwerthuso ei hun, gydag ychydig cyfyngiadau ar gyhoeddi setiau data penodol.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, mewn perthynas ag effaith tlodi, fod Estyn wedi derbyn cyflwyniad ar ddechrau'r arolygiad er mwyn deall y cyd-destun ac roedd Estyn yn empathetig i'r heriau hynny, wrth graffu ar y data mewn ffordd gadarn iawn.

Cyfeiriodd Aelod at dudalen 1 yr adroddiad arolygu, mewn perthynas â'r gyllideb ddirprwyedig i ysgolion fesul disgybl yn 2022-23. Nododd ei bod ychydig yn is na chyfartaledd Cymru, a gofynnodd am sicrwydd nad yw'r diffyg yno mwyach. Cyfeiriodd yr Aelod at dudalen 6, paragraff 2, yr adroddiad arolygu, o ran 'cyfradd y gwaharddiadau parhaol yn gyffredinol unol â'r cyfartaledd cenedlaethol'. Gofynnodd a ddylai fod rhagor o ddata er mwyn sicrhau craffu, a hynny yn y dyfodol o ran sut roedd y gwasanaeth wedi gwella, yn unol ag argymhelliad A3.

Aeth y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant ati i gydnabod ei bod hi'n hapus i roi rhagor o fanylion ar y newid yn yr wybodaeth am y gyllideb Addysg. Roedd cydweithwyr yr adran Cyllid wedi rhoi diweddariadau, gan nodi yn y Fforwm Cyllideb Ysgolion fod cyllidebau ysgolion wedi'u diogelu, a hynny o bosibl ar draul rhai gwasanaethau canolog. Ni chafodd cymariaethau uniongyrchol eu gwneud weithiau wrth edrych ar ystadegau allweddol, gan nad yw'r setiau data yma bob amser yn cynnwys adnoddau eraill wedi'u rhoi i ysgolion. Er enghraifft, mae adnoddau ychwanegol wedi cael eu darparu ar gyfer swyddogion ymgysylltu â theuluoedd, darpariaethau CAM 4, ac ati. Cafodd ei gydnabod ei bod wedi bod yn gyfnod heriol i ysgolion, gan fod rhaid gwneud penderfyniadau anodd.

Nododd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant ei bod o'r farn bod Estyn yn cyfeirio at setiau data cenedlaethol 2017-19 mewn perthynas â gwaharddiadau parhaol. Roedd adroddiadau presenoldeb a gwaharddiadau manwl wedi cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor ac maen nhw'n rhan o'r rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn nesaf. Byddai hyn yn rhoi cyfle ychwanegol i Aelodau adolygu'r data. Roedd yn ganolbwynt cryf i'r gwasanaeth ac yn argymhelliad teg.

Cyfeiriodd Aelod at dudalen 4 yr adroddiad arolygu, mewn perthynas ag A1, a gofynnodd ba gamau fyddai'n cael eu cymryd i roi ethos gwaith mwy hunan-fyfyriol wedi'i gydlynu sy'n gwrando ar eraill ar waith ar draws y Gyfadran. Cyfeiriodd yr Aelod at dudalen 11, paragraff 3 yr adroddiad arolygu, mewn perthynas â'r broses atgyfeirio ar gyfer gwasanaethau ADY, a gofynnodd ba gamau fyddai'n cael eu cymryd i wella'r broses a system y porth.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, mewn perthynas â'r hunanwerthusiad, nad oes problem gyda'r ansawdd fel y cyfryw, a chafodd hunanwerthusiad manwl iawn ei gynnal. Rhan o'r broblem oedd yn ymwneud â'r angen i symleiddio'r dogfennau, gyda chynlluniau eisoes ar waith i'w wneud yn fwy cryno a sicrhau ei fod yn werthusol iawn. Roedd Estyn o'r farn bod cysylltiad amlwg rhwng y Cynllun Corfforaethol a dogfen strategol 3 blynedd y Gyfadran, a chynllun cyflawni blynyddol y Gyfadran. Serch hynny, roedd eisiau

gweld cysylltiad gwell rhwng Cynllun y Gyfadran a Chynlluniau Gwasanaethau. Rydyn ni wedi mynd i'r afael â hyn er mwyn sicrhau bod fformat cyson o ran cynlluniau gwasanaethau yn cael ei fabwysiadu. Roedd Estyn hefyd yn awyddus i'r gwasanaeth gynnwys mesurau cyflawniad newydd neu fwy o eglurhad o ran meini prawf llwyddiant. Mae hyn bellach wedi'i neilltuo i bob cam gweithredu yng Nghynllun Cyflawni presennol y Gyfadran ar gyfer 2023-24. Yn nhermau adborth rhanddeiliaid, roedd tystiolaeth bod y gwasanaeth wedi ymgynghori ag ystod eang o bartneriaid. Serch hynny, roedd maes llais disgyblion eisoes wedi cael ei nodi'n faes y byddai angen ei gryfhau, felly roedd cynllun ymgysylltu wrthi'n cael ei ddatblygu.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant fod y porth yn y Cynllun Cyflawni a bod y gwasanaeth yn effro i'r broblem. Aeth ati i gydnabod bod rhai ysgolion yn teimlo'n rhwystredig gyda'r system felly roedd angen gwella'r broses o lanlwytho gwybodaeth ddigidol. Roedd y gwaith yma eisoes wedi mynd rhagddo, a byddai prosesau newydd yn cael eu rhannu gydag ysgolion ym mis Medi. Cafodd llawer o sesiynau hyfforddi eu darparu a chafodd grwpiau ffocws eu cynnal gydag ysgolion. Roedd adborth o'r rheiny yn cael ei ystyried.

Cyfeiriodd Aelod at dudalen 16, paragraff 6 yr adroddiad arolygu, mewn perthynas â'r sylw am ddata ariannol cymharol ag awdurdodau lleol eraill a gofynnodd a oes modd mynd i'r afael â hyn yn hawdd drwy'r cynllun gweithredu. Cyfeiriodd yr Aelodau at dudalen 11, paragraff 4 yr adroddiad arolygu mewn perthynas â'r sylw am y dosbarth anghenion cymhleth ADY a gofynnodd i'r Cyfarwyddwr am ei barn. Cyfeiriodd yr Aelod at dudalen 2, paragraff 2, mewn perthynas â chyfleoedd trochi a gofynnodd faint o waith a gafodd ei wneud gydag awdurdodau lleol eraill. Gofynnodd yr Aelod pam nad oes unrhyw sôn am Gam 4 yn yr adroddiad arolygu.

Esboniodd y Pennaeth Gwasanaeth – Trawsffurfio ac Addysg, yn nhermau cyllid, y cafodd gwaith meincnodi sylweddol ei gwblhau, a hynny yn erbyn awdurdodau eraill, drwy grŵp cyllid Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru. Pwysleisiodd fod rhai anghysondebau o ran yr hyn a gafodd ei roi i ysgolion a'r hyn a gafodd ei gadw'n ganolog ond gallai roi rhagor o wybodaeth am yr hyn a gafodd ei gynnwys yn y symiau dirprwyedig.

Rhoddodd y Pennaeth Materion Presenoldeb a Lles ddiweddariad i Aelodau ar yr hyn sy'n cael ei wneud am fwlio o ran gwaith llais y disgybl. Esboniodd fod fframwaith sydd wedi'i ailddatblygu â chanolbwynt ar fwlio, yn cael ei ddefnyddio i gynnal arolwg uwch garfan rheoli, a fyddai'n mynd law yn llaw â grwpiau ffocws sy'n cael eu harwain gan blant. Y gobaith oedd cwblhau'r gwaith yma erbyn tymor yr haf, gan roi adroddiad at ei gilydd dros wyliau'r haf. Dyma fydd cam 1 gwaith llais y disgybl mewn perthynas â bwlio. Byddai cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu yn nhymor yr hydref er mwyn edrych ar y camau nesaf.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Ysgolion yr 21ain Ganrif fod cynnydd wedi cael ei wneud o ran trochi yn y Gymraeg, a bod y staff priodol bellach wedi'u penodi. Roedd llawer o waith rhwydweithio wedi cael ei gynnal gydag asiantaethau allanol, yn ogystal ag awdurdodau lleol eraill, a dechreuodd y 3 disgybl cyntaf fanteisio ar ddarpariaeth drochi ar 12 Mehefin 2023. Y gobaith oedd y byddai'r nifer sy'n gofyn am ddarpariaeth drochi yn y Gymraeg yn parhau i gynyddu. Nodwyd er y cafodd hyn ei nodi'n argymhelliad allweddol, mae wedi cael ei weld mewn ffordd gadarnhaol ac mae gwaith wrthi'n cael ei gynnal i fwrw ymlaen â datblygiadau.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant ddiweddariad i Aelodau mewn perthynas â throchi yn y Gymraeg yn Ysgol Gynradd Heol y Celyn. O ran datblygiadau darpariaeth ADY a throchi, byddai rhai wedi'u cynnwys yn adroddiad blynyddol Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor a gallai'r Athro/Athrawes Trochi ddod i'r cyfarfod a rhoi diweddariad.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, mewn perthynas â'r sylw am y dosbarth anghenion cymhleth ADY yn yr adroddiad, fod meini prawf clir iawn ar gyfer pob darpariaeth. Yr anhawster oedd bod gan blant nifer o anghenion weithiau, ac roedd angen penderfynu ar y prif angen a'r lleoliad gorau ar gyfer y disgybl. Cafodd ei gydnabod bod y broses yn amrywio i bob disgybl a byddai angen gwneud penderfyniadau gwybodus a gofalus ar gyfer pob lleoliad. O ran Cam 4, cafodd hyn ei drafod yn rhan o gyfarfodydd gydag Estyn a thrafodaethau am y mater yma. Roedd hyn hefyd yn wir o ran tlodi a'r hyn a gafodd ei wneud i gefnogi pobl ifainc sy'n wynebu heriau. Roedd Estyn yn fodlon ar yr hyn a gafodd ei wneud, ac roedd modd i'r gwasanaeth ddangos hynny'n gadarn.

Rhoddodd y Cadeirydd grynodeb drwy nodi bod y drafodaeth wedi bod yn dda iawn, a phwysleisiodd fod y Pwyllgor, ar y cyfan, o'r farn ei fod yn adroddiad cadarnhaol iawn. Llongyfarchodd y Cadeirydd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant a'i charfan, yn ogystal ag ysgolion.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cydnabod bod Aelodau wedi rhag-graffu ar yr adroddiadau (Atodiadau A a B) ac wedi nodi eitemau pellach i'w cynnwys yn rhaglen waith y Pwyllgor yn y dyfodol mewn perthynas â'r gwaith o ran bwlio, yr elfen YEPS ac adroddiad mewn 6 mis i nodi sut mae argymhellion Estyn wedi arwain at welliannau a datblygiadau ledled y Fwrdeistref Sirol.

**4 ADOLYGIAD Y CADEIRYDD A DOD Â'R CYFARFOD I BEN**

Rhoddodd y Cadeirydd ddiolch i Swyddogion a oedd yn bresennol am gyfrannu at y cyfarfod ac i Aelodau am eu sylwadau a chwestiynau. Aeth y Cadeirydd ati i atgoffa Aelodau o'r Hyfforddiant Craffu ddydd Llun 26 Mehefin 2023 am 4.30pm, a oedd yn gyfle da iddyn nhw. Roedd angen i Aelodau'r Pwyllgor fod yn effro i rai o elfennau'r hyfforddiant. Yn ogystal â hynny, cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 19 Gorffennaf 2023 am 5pm, byddai cyfarfod Pwyllgor ar y cyd â'r Pwyllgor Craffu – Gwasanaethau Cymuned am 4pm, a hynny er mwyn trafod y Rhybudd o Gynnig mewn perthynas â thlodi plant. Byddai dyddiad arall yn cael ei drefnu ar gyfer y rhag-gyfarfod a oedd i fod i gael ei gynnal ar 19 Gorffennaf.

**5 MATERION BRYS**

Dim.

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.09 pm**

**Y Cynghorydd S.Evans**
**Cadeirydd.**